| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **15 Mehefin 2016** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro/ Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Lisa Jones/ Gary Williams** |
| **Teitl:** | **Cyfansoddiad y Cyngor** |

## 1. Beth yw cynnwys yr adroddiad?

1.1 I ddarparu copi i'r Pwyllgor o'r Cyfansoddiad drafft i gael sylwadau ac arsylwadau cyn y cyflwynir hwn i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn gofyn bod unrhyw newidiadau a fwriedir i Gyfansoddiad y Cyngor yn cael eu hystyried yn gyntaf cyn y caiff ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor Llawn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn ystyried y Cyfansoddiad drafft sydd ynghlwm fel Atodiad 1 ac yn argymell i'r Cyngor ei fabwysiadu.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Bydd Aelodau'r Pwyllgor yn cofio nifer o adroddiadau blaenorol a oedd yn ystyried y newidiadau arfaethedig i Erthyglau'r Cyfansoddiad, cynigion mewn perthynas â dirprwyo i aelodau'r Cabinet wneud penderfyniadau (mewn perthynas â phenderfyniadau anallweddol) a newidiadau i Reolau Cyflogaeth Swyddog a Thâl yr Aelodau: y Cynllun Dirprwyo Swyddog wedi'i ddiweddaru sy'n adlewyrchu ailstrwythuro newydd o'r uwch swyddog a'r Protocol ar Gysylltiadau Aelod/ Swyddog.

4.2 Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, mae Gweithgor y Cyfansoddiad sy'n cynnwys cynrychiolaeth drawsbleidiol wedi cyfarfod i ystyried y newidiadau arfaethedig; cyn i'r Swyddog Monitro adrodd ar bob cam o gynnydd i'r Pwyllgor hwn. Cafodd nifer o feysydd eu trafod gan gynnwys mwy o dryloywder a hysbysiad ymlaen llaw i wneud penderfyniad gan naill ai Aelod neu Uwch Swyddog, mewn perthynas â phenderfyniadau penodol yr oeddynt ar fin eu gwneud dan bwerau dirprwyedig; a ddylai aelodau o'r cyhoedd allu cyflwyno cwestiynau i'r Cabinet neu'r cyngor llawn; cyfyngiadau ar amser ar gyfer cyfarfod: Cadeirydd yn llofnodi pob dogfen gyfreithiol dan sêl; dirprwyo pwyllgorau a newid y protocol ar gysylltiadau swyddog aelod.

4.3 Cynhaliwyd gweithdy Aelodaeth ar 1 Mawrth 2016 er mwyn cyflwyno aelodaeth ehangach i'r Cyfansoddiad newydd arfaethedig.

4.4 Mae’r ddogfen ynghlwm fel Atodiad 1 ac mae sylwadau Aelodau yn cael eu cynnwys gyda'r newidiadau canlynol:

- Adran Diffiniad Estynedig
- Adran 3 yn nodi sut y gall aelodau o’r cyhoedd gael gwybodaeth a bod yn gysylltiedig
- Adran 4 Fframwaith Polisi wedi’i ddiweddaru
- Adran 9 – Rhestru pob rheoliadau a phwyllgorau eraill, gan gynnwys y Pwyllgorau ar y Cyd.
- Adran 11 – yn nodi pwy yw’r Swyddogion statudol ‘Priodol’ y Cyngor a’u swyddogaethau a meysydd cyfrifoldeb.
- Adran 12 – Cyllid, Cytundebau a Materion Cyfreithiol a chael gwared â gofyniad y Cadeirydd y Cyngor i lofnodi pob cytundeb yn unigol neu drafodion eiddo a wneir dan sêl.
- Adran 13 yn nodi Cynllun Dirprwyo Aelod Cabinet diwygiedig a Chynllun Diwygio Swyddog diwygiedig.

Mae’r Cyfansoddiad newydd yn cynnwys y Codau a Phrotocolau; nid yw'r rhain wedi newid gan fod y broses ymgynghori wedi cadarnhau yr oeddent yn addas i’r diben ac yn gweithio'n barod:

- Gweithdrefnau gwrandawiadau’r Pwyllgor Safonau
- Cod Ymddygiad Gweithwyr
- Disgrifiadau Rôl i Aelodau
- Protocol Hunanreoleiddiol Aelodau
- Protocol Cyswllt ag Aelodau
- Protocol ar Fynediad at Wybodaeth i Aelodau
- Cod Arferion Gorau i Gynghorwyr a Swyddogion sy'n delio â Materion Cynllunio
- Protocol ar Swyddogaeth Cadeirydd ac Arweinydd wrth Gynrychioli’r Cyngor
- Protocol ac Arweiniad i Aelodau Etholedig a Benodwyd i Gyrff Allanol

Mae’r Cyfansoddiad newydd yn cynnwys y canlynol sydd wedi eu diweddaru a’u cymeradwyo yn ddiweddar gan y Cyngor Llawn:

- Polisi Rhannu Pryderon
- Rheolau’r Weithdrefn Gontractau
- Cod Ymddygiad diwygiedig i Aelodau

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Bydd cyfansoddiad modern sy’n addas at ei bwrpas yn cyfrannu at y flaenoriaeth i fod yn Gyngor sy'n perfformio'n dda gan ddarparu sicrwydd ar faterion llywodraethu a gwneud penderfyniadau, ymddygiad moesegol, rheolau contractio a phartneriaeth gadarn a chaniatáu i'r cyhoedd a thrydydd parti weld pwy sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad ar faterion sy'n effeithio arnynt.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**7. Pa ymgynghori a wnaed?**

7.1 Hyd yma dim ond Gweithgor Cyfansoddiad y Cyngor, y Pwyllgor hwn a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, drwy weithdy, sydd wedi bod yn rhan o'r drafodaeth ar y cynigion allweddol yn y cyfansoddiad newydd.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

8.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

9.1 Mae perygl y bydd Cyfansoddiad sydd heb ei ddiwygio i fod yn gyfredol â newidiadau corfforaethol a deddfwriaethol yn methu â bod yn addas at y diben.

**10. Pŵer i wneud Penderfyniad**

10.1 Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn mynnu bod gan bob cyngor gyfansoddiad.